

# Cymhariaeth o arolygon gwaelodlin Cyswllt Ffermio ar gyfer 2018 a 2019

Dr Cate L. Williams

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth, IBERS, Prifysgol  
Aberystwyth.

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	4
Canlyniadau'r Arolwg .....	4
1. Ydych chi'n meincnodi (cymharu) perfformiad eich busnes yn erbyn busnesau eraill tebyg .....	4
2. A ydych wedi dechrau meincnodi o ganlyniad i gymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau Cyswllt Ffermio canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?.....	5
3. Ydych chi wedi defnyddio'ch ffigurau meincnodi i wneud newidiadau yn y ffordd rydych chi'n rheoli'ch fferm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?.....	6
4. A oes gennych gynllun olyniaeth ar gyfer eich busnes (rhywun i gymryd yr awenau gennych pan fyddwch yn ymddeol)?.....	6
5. A ydych wedi cynnal unrhyw un o'r canlynol ar eich fferm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (samplu pridd neu gynllunio rheoli maetholion, monitro iechyd anifeiliaid, mesur glaswellt a/neu samplu silwair?).....	6
6. Os wnaethoch chi ddewis unrhyw un o'r uchod, a ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth hon i wneud newidiadau i'r ffordd rydych chi'n rheoli eich fferm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? .....	7
7. A oes gennych uchelgais glir i'ch busnes ar gyfer y 3-5 mlynedd nesaf? .....	7
8. A oes gennych gynllun busnes ysgrifenedig yn amlinellu sut y byddwch yn cyflawni eich uchelgais?...	8
9(a). A ydych chi'n defnyddio meddalwedd cofnodi electronig ar hyn o bryd i reoli perfformiad eich diadell/buches? .....	8
9(b). Os felly, rhowch ddisgrifiad o'r math o system rydych chi'n ei defnyddio: .....	9
10. 2019: A ydych chi'n bwriadu cwblhau unrhyw gyrsiau hyfforddi trwy raglen Cyswllt Ffermio yn ystod y 12 mis nesaf? 2018: A ydych chi neu eraill sy'n gweithio ar y daliad yn bwriadu ymgymryd â hyfforddiant achrededig trwy'r rhaglen Cyswllt Ffermio yn y 2 flynedd nesaf? .....	9
11. Ydych chi wedi ystyried plannu coed ar eich fferm?.....	10
12. Heblaw TB buchol, beth yw'r broblem iechyd anifeiliaid fwyaf ar hyn o bryd sy'n berthnasol i'ch daliad? .....	10
13. Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli'r canlynol i'ch busnes: (1 yn golygu nad yw'n bwysig o gwbl a 6 yn golygu pwysig iawn) .....	12
a) Bioamrywiaeth a chynefinoedd .....	12
b) Pridd .....	13
c) Ansawdd dŵr .....	13
d) Tirwedd .....	13
e) Dŵr.....	14

f) Ansawdd aer .....	14
14. O ganlyniad i weithgaredd Cyswllt Ffermio, a ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i'ch arferion ffermio? .....	15
15. Beth yw'r prif resymau na wnaethoch chi unrhyw newidiadau? .....	15
16. Pa newidiadau wnaethoch chi? .....	16
17. Pa effaith y mae rhaglen Cyswllt Ffermio wedi'i chael ar yr agweddau canlynol ar eich busnes? .....	17
a) Hyfywedd fferm .....	17
b) Gallu'r fferm i fod yn gystadleuol .....	17
c) Effeithlonrwydd wrth ddefnyddio mewnbynnau a brynir i mewn .....	17
ch) Effeithlonrwydd llafur .....	17
e) Lleihau ôl troed carbon .....	18
f) Effaith amgylcheddol .....	18
g) Lles anifeiliaid .....	18
h) Bioddiogelwch.....	19
i) Iechyd a diogelwch .....	19
j) Olyniaeth teulu .....	19
k) Swyddi ac incwm yn y gymuned wledig ehangach .....	19
l) Defnyddio TGCh .....	19
18. Ar gyfer pob un o'r eitemau canlynol, nodwch i ba raddau y mae Cyswllt Ffermio wedi cael effaith ar elw eich fferm a / neu incwm eich teulu yn y tymor hir a nodwch sut yr ydych chi'n meintoli hyn gan ddefnyddio'r ystod ganrannol ganlynol .....	20
a) Costau amrywiol .....	20
b) Costau sefydlog .....	20
c) Trosiant fferm .....	20
d) Trosiant o fentrau arallgyfeirio .....	21
e) Elw 'r fferm .....	21
f) Cyfanswm y llafur a ddefnyddir (cyfwerth ag amser llawn) .....	22
g) Cyfanswm incwm teuluol .....	22
19. Pa gymorth arall yr hoffech chi gan raglen Cyswllt Ffermio i helpu i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant eich busnes? .....	22
20. Lledaeniad daearyddol cyfranogwyr yr arolwg .....	25

## Cyflwyniad

Mae arolwg gwaelodlin Cyswllt Ffermio wedi cael ei gynnal dros y tair blynedd diwethaf gan ddechrau yn 2016. Mae'r adroddiad hwn yn cymharu canlyniadau arolwg diweddaraf 2019 gyda chanlyniadau arolwg 2018. Cynhaliwyd cyfweiliad gyda 911 o ffermwyr yn ystod arolwg 2018, a chasglwyd data gan 705 o ffermwyr a'u busnesau o bob cwr o Gymru fel rhan o arolwg 2019.

Mae Cyswllt Ffermio yn gweithio i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ffermwyr yng Nghymru, gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil gwyddonol diweddaraf a rhoi casgliadau allweddol ar waith ar ei safleoedd arddangos a'i safleoedd ffoecs, gan hefyd reoli prosiectau arloesol drwy raglen Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru. Nod Cyswllt Ffermio yw trawsnewid rhagolygon busnes ar gyfer ffermwyr ledled Cymru drwy gynnig mynediad cymorthdaledig i amrywiaeth o ymgynghorwyr ac arbenigwyr, cyrsiau hyfforddi technegol ac ymarferol a chysylltu ffermwyr gyda'i gilydd er mwyn rhannu arfer da.

Nodwyd yn yr arolwg gwaelodlin yn 2018 a 2019 fod aelodau'n gweld budd o fynychu grwpiau trafod ac ymweliadau fferm. Mae ffermio yn alwedigaeth draddodiadol sy'n aml yn cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth ac nid yw'r arferion ffermio cysylltiedig yn eithriad. Mae defnyddio grwpiau cymheiriaid o bobl leol ac arddangos cysyniadau newydd ar ffermydd yn cynnig cyfle i rannu syniadau, trafod arferion newydd a sut i weithredu hyn ar y fferm. Mae Cyswllt Ffermio yn parhau i wneud defnydd effeithiol o'r model dysgu yma drwy'r grwpiau trafod a'r gweithdai.

Mae'r gwahaniaethau rhwng arolygon 2018 a 2019 yn cynnwys cynnydd yn nifer y ffermwyr a arolygwyd sy'n defnyddio data meincnodi i wneud newidiadau i'w harferion rheoli. Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod cyfranogwyr wedi datblygu eu gallu i ddefnyddio data meincnodi a'i ddefnyddio ar y fferm dros y flwyddyn, o bosibl o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cyswllt Ffermio. O ran cyrsiau hyfforddi, roedd monitro iechyd anifeiliaid a samplu pridd yn parhau i fod yn weithgareddau poblogaidd yn y ddau arolwg, ond roedd mesur glaswellt yn fwy poblogaidd yn 2018 a samplu silwair yn fwy poblogaidd yn 2019. Mae'r canlyniadau hefyd yn awgrymu bod cyfranogwyr wedi gweld mwy o effaith gadarnhaol ar eu busnes o ganlyniad i raglen Cyswllt Ffermio rhwng 2018 a 2019.

## Canlyniadau'r Arolwg

1. A ydych chi'n meincnodi perfformiad eich busnes yn erbyn busnesau tebyg eraill ar gyfer unrhyw un o'r canlynol?

Math o feincnodi	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Ffisegol yn unig	74	42	8	6
Ariannol yn unig	41	81	4	11
Ffisegol ac ariannol	199	111	22	16
Cyfanswm yr ymatebion	314	233	35	33
Cyfanswm heb ymateb	596	471	65	67

Ar y cyfan, ni chafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan yr ymatebwyr yn 2018 na 2019, gan awgrymu o bosibl nad ydynt yn meincnodi o gwbl. O weddill yr ymatebion, dywedodd y mwyafrif (2018: 22%; 2019: 16%) eu bod yn meincnodi'n ffisegol ac yn ariannol. Mae ymatebion 2018 yn dangos bod mwy yn meincnodi'n 'ffisegol yn unig' (8%), ond yn 2019, roedd mwy o ymatebwyr wedi ateb 'ariannol yn unig' (11%). Gan fod y canlyniadau'n dangos nad yw mwyafrif y cyfranogwyr yn meincnodi, efallai y byddai codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael gan Cyswllt Ffermio ar gyfer meincnodi (h.y. gweithdai 'Mesur i Reoli' a'r gwasanaethau cynghori) yn ddefnyddiol.

Ceir llawer o dystiolaeth hefyd bod ffermwyr yn gwrando ar ffermwyr eraill. Byddai clywed gan gymheiriaid sydd wedi defnyddio data meincnodi i wella'r busnes yn debygol o fod yn effeithiol iawn o ganlyniad i'r ymdeimlad o ymddiriedaeth a hygyrdded (Franz *et al.*, 2010). Mae'r dechneg hon wedi cael ei defnyddio gan Cyswllt Ffermio mewn digwyddiadau Ffermio ar gyfer y Dyfodol, digwyddiadau 'Mynediad at Gyngor Technegol' ac mewn grwpiau trafod, ond gallai mwy o arddangosiadau o arfer da wrth feincnodi hefyd fod o fudd.

## 2. A ydych wedi dechrau meincnodi o ganlyniad i gymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau Cyswllt Ffermio canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (Gellir rhoi mwy nag un ateb)

Gweithgaredd Cff	Nifer yr Ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Grwpiau trafod	180	146	20	21
Agrisgôp	38	39	4	5
Academi Amaeth	10	11	1	1.6
Tesco	2	3	0	0
IBERS, Prifysgol Aberystwyth	21	2	2	0
Ar lafar	5	0	0	0
Arall	14	6	1.5	0
Cyfanswm yr ymatebion	225	171	25	24
Cyfanswm heb ymateb	686	539	75	76

Ni chafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan fwyafrif y rhai a holwyd (2018: 75%; 2019: 76%), neu rhoddwyd ateb 'Amherthnasol', gan gyfrif am y rhai nad ydynt yn meincnodi fel y nodwyd yn y cwestiwn blaenorol, yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn meincnodi o ganlyniad i weithgareddau Cyswllt Ffermio yn benodol. O'r rhai sy'n meincnodi eu busnes o ganlyniad i weithgareddau Cyswllt Ffermio, mae'r mwyafrif helaeth (2018: 20%; 2019: 21%) yn gwneud hynny o ganlyniad i gymryd rhan mewn grwpiau trafod. Mae gweithgareddau dylanwadol eraill yn cynnwys Agrisgôp (2018: 4%; 2019: 5%), yr Academi Amaeth yn 2019 (2%) a Phrifysgol Aberystwyth yn 2018 (2%). Mae'n debygol fod y rhai a nododd "Prifysgol Aberystwyth" yn cyfeirio at yr arolwg busnes fferm (FBS) a gynhelir bob blwyddyn. Fodd bynnag, ychydig iawn a atebodd fod eu gweithgareddau meincnodi yn ganlyniad i 'Prifysgol Aberystwyth' yn 2019 o'i gymharu â 2018. Mae'n bosibl bod hyn o ganlyniad i ddathliad 80 mlynedd o'r Arolwg Busnes Fferm a ddigwyddodd yn 2018 a allai fod wedi rhoi hwb o ran ymgysylltiad, gan ddychwelyd i lefelau mwy nodweddiadol yn y flwyddyn ganlynol.

Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu bod ffermwyr yn ystyried grwpiau trafod yn fuddiol iawn a'u bod yn mabwysiadu arferion newydd o ganlyniad. Mae addysg cymheiriaid yn ddull hynod effeithiol o

hyfforddi/addysgu gan fod cyfranogwyr yn aml yn fwy parod i dderbyn gan eraill sydd wedi rhoi cynnig ar gysyniad newydd, gan ddarparu ymdeimlad o hygyrdd. Yn y diwydiant ffermio, mae'r cysyniad hwn yn hanfodol, lle mae gwybodaeth yn aml yn cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth neu o fewn cymunedau agos (Foster a Rosenzweig, 1995; Franz *et al.*, 2010). Mae Cyswllt Ffermio wedi gwneud defnydd gwyb o'r model addysgu hwn i addysgu ffermwyr am y broses o feincnodi trwy grwpiau trafod ar y cyd â gweithdai 'Mesur i Reoli'.

### 3. Ydych chi wedi defnyddio eich ffigurau meincnodi i wneud newidiadau i'r ffordd yr ydych chi'n rheoli eich fferm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Ymateb	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Do	169	175	18	25
Naddo	225	85	25	12
Cyfanswm yr ymatebion	402	260	44	37
Cyfanswm heb ymateb	517	445	56	63

Fel y gwelwyd yn flaenorol, ni chafwyd ymateb gan fwyafrif y cyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Ar ôl ychwanegu nifer y cyfranogwyr a oedd heb ateb at yr atebion 'Na', roedd y cyfanswm yn 75-80% sy'n cyfateb â'r gyfran flaenorol o ffermwyr nad oedd wedi ateb y cwestiwn ac felly'n annhebygol o fod yn meincnodi o gwbl. Yn 2018, roedd 25% o'r ymatebion yn nodi nad oeddent wedi defnyddio eu ffigurau meincnodi i wneud newidiadau i'r ffordd y maen nhw'n rheoli eu ffermydd, ac yna yn 2019, roedd 25% yn cytuno eu bod wedi defnyddio eu ffigurau meincnodi i wneud newidiadau. Gall y broses feincnodi fod yn un gymharol syml, ond gall fod yn anodd gwneud synwyr o'r data ar y fferm a'i ddefnyddio'n ymarferol. Felly, mae'n debygol bod y canlyniad hwn wedi digwydd oherwydd bod ffermwyr wedi dysgu sut i ddefnyddio'r data rhwng 2018 a 2019. Mae'n bosibl bod y gefnogaeth a'r cyngor ynghylch meincnodi a ddarperir gan Cyswllt Ffermio wedi chwarae rhan allweddol yn y newid hwn - efallai o ganlyniad i fwy o ymgysylltiad mewn gweithdai a grwpiau trafod.

### 4. A oes gennych gynllun olyniaeth ar gyfer eich busnes (rhywun i gymryd yr awenau gennych pan fyddwch yn ymddeol)?

Ymateb	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Oes	384	311	42	44
Nac oes	460	344	50	49
Ddim yn berthnasol	41	40	4.5	6
Cyfanswm yr ymatebion	885	695	97	98
Cyfanswm heb ymateb	26	10	3	2

Yn 2018 a 2019, roedd canran yr ymatebion a nododd 'oes' a 'nac oes' wedi'u rhannu'n weddol gyfartal ar gyfer y cwestiwn hwn - gydag ychydig yn fwy yn nodi nad oedd ganddynt gynllun ar waith

(2018: 50%; 2019: 49% yn dweud 'nac oes', ac yn 2018: 42%; a 2019: 45% yn dweud 'oes'). Yn ddelfrydol, byddai pob ymatebwr y mae'r mater hwn yn berthnasol iddynt wedi ateb yn gadarnhaol gan nodi bod ganddynt gynllun ar waith - er bod cyfradd llwyddiant o 100% bron yn amhosibl ym mhob adran, mae'n bosibl y gellir gwneud gwelliannau yn y maes hwn. Mae Cyswllt Ffermio eisoes yn cynnig cefnogaeth a gwasanaethau proffesiynol yn ymwneud ag olyniaeth, felly efallai bod angen amlygu'r gwasanaethau hyn i aelodau Cyswllt Ffermio neu ystyried gwahanol ddulliau o ddarparu (h.y. cynnwys ar fideo).

5. A ydych wedi cynnal unrhyw un o'r canlynol ar eich fferm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)?

Gweithgaredd	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Monitro iechyd anifeiliaid	534	411	59	34
Mesur glaswellt	100	80	11	7
Samplu Silwair	58	258	6	22
Samplu pridd neu gynllunio rheoli maetholion	548	444	60	37
Un gweithgaredd	262	202	29	29
Dau weithgaredd	265	211	29	30
Tri gweithgaredd	173	147	19	21
Pedwar gweithgaredd	48	32	5	4
Cyfanswm yr ymatebion	768	592	84	84
Cyfanswm heb ymateb	143	113	16	16

Ceir gwahaniaeth sylweddol ym mhoblogrwydd gweithgareddau rhwng 2018 a 2019. Er hynny, 'monitro iechyd anifeiliaid' a 'samplu pridd' oedd y gweithgareddau mwyaf poblogaidd yn y ddau arolwg. Yn 2018, dewisodd 59% weithgaredd 'monitro iechyd anifeiliaid' a 34% yn 2019, a dewisodd 60% a 37% 'samplu pridd' yn y drefn honno. Yn 2018, dewisodd llawer mwy ymgymryd â gweithgaredd mesur glaswellt nag yn 2019 (11% a 7% yn y drefn honno). Yna, gellir dweud y gwrthwyneb am samplu silwair a oedd yn llawer mwy poblogaidd yn 2019 (22%) nag yn 2018 (6%).

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd eu bod wedi ymgymryd â mwy nag un gweithgaredd yn 2018 a 2019. O'r rhai a holwyd, roedd 28% wedi ymgymryd ag un gweithgaredd yn 2018 a 2019, 29-30% wedi ymgymryd â dau weithgaredd, 19-20% wedi ymgymryd â thri gweithgaredd a 4-5% wedi ymgymryd gyda phob un o'r pedwar gweithgaredd. Mae'r patrwm hwn yn aros yn gyson rhwng 2018 a 2019. At ei gilydd, dim ond 16% o'r rhai a holwyd yn 2018 a 2019 oedd heb ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau uchod, sy'n nifer gymharol fach. Ar ben hynny, mae'n galonogol gweld tueddiad i gymryd rhan mewn mwy nag un gweithgaredd - gan awgrymu bod ffermwyr yn gweld y gweithgareddau'n fuddiol ac yn werth chweil a fyddai'n eu hannog i ailadrodd y profiad.

6. Os dewisoch chi unrhyw un o'r uchod, a ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth hon i wneud newidiadau yn y ffordd rydych chi'n rheoli'ch fferm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ymateb	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Ydw	633	546	69	77
Nac ydw	152	51	17	7
Cyfanswm yr ymatebion	785	597	86	85
Cyfanswm heb ymateb	129	108	14	15

Ar y cyfan, nododd y rhan fwyaf (69% yn 2018 a 77% yn 2019) o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r wybodaeth yn dilyn gweithgareddau Cyswllt Ffermio i wneud newidiadau mewn rheolaeth. Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu bod ffermwyr nid yn unig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a gynigir gan Cyswllt Ffermio ond eu bod hefyd yn dehongli ac yn defnyddio'r data a gânt i wneud gwelliannau i'w busnes.

### 7. A oes gennych uchelgais glir i'ch busnes ar gyfer y 3-5 mlynedd nesaf?

Ymateb	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Oes	595	506	65	72
Nac oes	292	193	32	27
Cyfanswm yr ymatebion	887	699	97	99
Cyfanswm heb ymateb	24	6	3	0

Yn 2018 a 2019, roedd mwyafrif (56% a 72%, yn y drefn honno) yr ymatebion yn nodi bod gan y rhai a holwyd uchelgais neu amcan clir mewn golwg ar gyfer eu busnesau dros y 3-5 mlynedd nesaf. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymatebion a oedd yn nodi bod ganddynt uchelgais glir ar gyfer eu busnes rhwng 2018 a 2019, o bosibl o ganlyniad i weithgareddau Cyswllt Ffermio a allai fod yn ddigon i danio syniadau ac ysbrydoli ffermwyr i ystyried dyfodol eu busnesau fferm.

### 8. A oes gennych gynllun busnes ysgrifenedig yn amlinellu sut y byddwch yn cyflawni eich uchelgais?

Ymateb	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Oes	159	136	17	19
Nac oes	728	560	80	79
Cyfanswm yr ymatebion	887	696	97	99
Cyfanswm heb ymateb	24	9	3	1

Roedd y mwyafrif ar gyfer y ddau arolwg (2018: 80%, 2019:79%) yn nodi nad oedd ganddynt gynllun ysgrifenedig. Mae hyn yn awgrymu, o'r rhai a atebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn blaenorol bod



ganddynt nod clir, mai nifer fechan iawn sydd â chynllun ysgrifenedig yn amlinellu sut maen nhw am gyflawni'r nod hwnnw. Ar hyn o bryd mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cyllid o hyd at 80% tuag at gyngor cynllunio busnes ar gyfer busnesau fferm, felly mae'n bosibl y byddai hysbysebu ychwanegol o fudd er mwyn annog ymgysylltiad gyda'r gwasanaeth ac i helpu aelodau i wireddu eu huchelgais.

9. (a) A ydych chi'n defnyddio meddalwedd cofnodi electronig ar hyn o bryd i reoli perfformiad eich diadell/buches?

Ymateb	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Ydw	278	206	30	29
Nac ydw	602	491	66	70
Cyfanswm yr ymatebion	880	698	96	99
Cyfanswm heb ymateb	31	7	4	1

Mae'r ymatebion yn nodi, ar y cyfan, nad yw'r rhai a arolygwyd yn 2018 a 2019 yn defnyddio EID (66% a 70% yn y drefn honno). Mae EID yn dechnoleg gymharol newydd ac mae astudiaethau'n awgrymu, er y gallai helpu i gynyddu proffidioldeb a'r defnydd o adnoddau, mae'n dal i fod yn fuddsoddiad sylweddol i fusnesau, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithredu ar raddfa fechan, sy'n cyfrif am nifer sylweddol o ffermydd yng Nghymru (StatsWales, 2017; Lima *et al.*, 2018). Roedd yr astudiaeth a gwblhawyd gan Lima *et al.*, (2018) a fu'n holi ffermwyr yn y DU ynglŷn â'u defnydd o EID yn dangos nad oedd dros hanner y rhai a holwyd yn defnyddio EID, nac ychwaith yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol. Mae'r nifer hwn yn cyfateb yn fras i'r canlyniadau a ddangosir yma; gan nodi o bosibl y gallai cyfathrebu tystiolaeth am effeithiau cadarnhaol EID (e.e. lleihau lefelau cloffni o fewn y ddiadell) neu arddangosiadau ar ffermydd fod o fudd.

9. (b) Os felly, rhowch ddisgrifiad o'r math o system rydych chi'n ei defnyddio.

Meddalwedd EID	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Shearwell	33	15	4	2
Agri data	15	10	2	1
FarmIT	4	7	0	1
Cloriannau / pwyso	2	5	0	0
Summit	0	5	0	0
Farm Plan	3	4	0	0
Cofnodi Llaeth / NMR	8	4	1	0
TrueTest	6	4	0	0
Allflex	3	3	0	0
BCMS	0	3	0	0
Uniform Agri	5	3	0	0
Dairy Plan	0	2	0	0
Farm Wizard	1	2	0	0
Gallagher	0	2	0	0
Tag / darlleneydd / ffon amhenodol	160	86	18	12

Arall	24	20	3	3
Cyfanswm yr Ymatebion	264	175	29	25
Cyfanswm heb ymateb	647	530	71	75

Ar y cyfan, y brand mwyaf poblogaidd o EID a ddefnyddiwyd gan ffermwyr a arolygwyd oedd Shearwell yn 2018 a 2019 (4 a 2%, yn y drefn honno). Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif (18% a 12%) a atebodd yn nodi brand EID. Yr opsiwn mwyaf poblogaidd o bell ffordd oedd y darllenydd ffon, yn debygol o fod ar y cyd â thag clust. Credir mai darllenydd llaw ar ffon yw'r darllenydd hawsaf i'w ddefnyddio gan ei fod yn gryf, yn fforddiadwy ac yn gludadwy, gan alluogi ffermwyr i gasglu rhestr o rifau EID unigol o anifeiliaid mewn rhedfa - addas iawn ar gyfer systemau rheoli defaid (Morgan-Davies *et al.*, 2015).

#### 10. A ydych chi'n bwriadu cwblhau unrhyw gyrsiau hyfforddi trwy raglen Cyswllt Ffermio yn ystod y 12 mis nesaf?

Ymateb	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Ydw	543	386	60	55
Nac ydw	339	224	37	32
Dibynnu ar ba gyrsiau sydd ar gael	Amherthnasol	74	Amherthnasol	10
Cyfanswm yr ymatebion	882	684	97	97
Cyfanswm heb ymateb	29	21	3	30

Nododd mwyafrif y garfan a arolygwyd eu bod yn bwriadu cwblhau cyrsiau hyfforddi gyda Cyswllt Ffermio yn y flwyddyn nesaf. Yn 2018 roedd y gyfran hon yn 60% ac yn 2019 gostyngodd ychydig i 55%, o bosibl oherwydd bod aelodau wedi cyflawni eu nodau ac wedi cwblhau cyrsiau hyfforddi rhwng y ddau arolwg. Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol, gan awgrymu bod gan ffermwyr ddiddordeb yn y cyrsiau a gynigir gan Cyswllt Ffermio a'u bod yn debygol o fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddi hefyd.

#### 11. Ydych chi wedi ystyried plannu coed ar eich fferm?

Ymateb	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Ydw	432	362	47	51
Nac ydw	462	341	51	48
Cyfanswm yr ymatebion	894	702	98	99
Cyfanswm heb ymateb	17	3	2	0

Roedd yr ymatebion i gwestiwn 11 wedi'u rhannu'n eithaf cyfartal yn y ddau arolwg, gyda 52% yn ymateb yn gadarnhaol yn 2019 a 48% yn ymateb yn negyddol. Roedd y rhaniad hwn yn debyg iawn yn 2018 gyda 47% yn nodi eu bod wedi ystyried plannu coed a 51% yn nodi nad oeddent wedi gwneud hynny. Mae hyn yn syndod efallai oherwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae amaeth-godwigaeth wedi dod yn fwy poblogaidd, gyda sefydliadau fel Coed Cadw yn cynnig cyllid a grantiau ar gyfer y rhai sy'n plannu coed ar raddfa fawr (30+) a grantiau Stiwardiaeth Coetir tebyg ar gael (Gov.uk,

2019; Coed Cadw, 2019). Er, mae'n bwysig nodi bod gan gyfran o'r rhai a atebodd 'na' goed ar eu ffermydd eisoes.

Derbynnir ar hyn o bryd bod cynyddu niferoedd coed ar dirweddau amaethyddol Cymru yn strategaeth allweddol ar gyfer lliniaru'r newid yn yr hinsawdd. Felly mae deall pam bod ffermwyr yn amharod i wneud hyn yn ffactor bwysig iawn, ac yn werth ei ymchwilio ymhellach. Mae rhesymau posibl yn cynnwys bod grantiau a chymorthdaliadau i ariannu gweithgareddau o'r fath yn dal i fod yn eu dyddiau cynnar.

## 12. Heblaw TB buchol, beth yw'r broblem iechyd anifeiliaid fwyaf ar hyn o bryd sy'n berthnasol i'ch daliad?

Problem iechyd	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
Cloffni mewn gwartheg	102	82	11	12
Defaid	Amherthnasol	28	Amherthnasol	4
Clafr defaid	70	62	8	9
Llyngyr	Amherthnasol	38	Amherthnasol	5
Clwy'r traed	82	38	9	5
BVD / dolur rhydd	51	37	6	5
Niwmonia	51	25	6	3
Clefyd Johne	48	20	5	3
Parasitiaid / llyngyr	140	16	15	2
Mastitis	23	14	2.5	2
Erthylid	15	11	2	1
Ffrwythlondeb	24	9	3	1
Cynrhon a llau	10	8	1	1
Ymwrthedd i driniaeth wrthfotig/anthelminitgau	14	6	1.5	1
Pryfed chwythu	Amherthnasol	5	Amherthnasol	0
CODD	28	5	3	0
Trogod	Amherthnasol	5	Amherthnasol	0
Maeth	10	4	1	0
Clwy Affricanaidd y Moch	1	3	0	0
Pryfed	5	3	0	0
IBR	12	3	1	0
Ffliw moch	Amherthnasol	3	Amherthnasol	0
Leptospirosis	11	Amherthnasol	1	Amherthnasol
Coccidiosis	6	Amherthnasol	0	Amherthnasol
Pasteurella	6	Amherthnasol	0	Amherthnasol
Ffliw adar	5	Amherthnasol	0	Amherthnasol
Arall	54	26	6	4
Dim problemau	Amherthnasol	24	Amherthnasol	3
Cyfanswm yr ymatebion	774	418	85	59
Cyfanswm heb ymateb	137	287	15	40

Y 5 pryder mwyaf o ran iechyd anifeiliaid:

2018:

1. Parasitiaid (15%)
2. Cloffni (cyffredinol) (11%)
3. Clwy'r traed (9%)
4. Clafr defaid (8%)
5. Niwmonia / BVD (6%)

2019:

1. Cloffni (cyffredinol) (12%)
2. Clafr defaid (9%)
3. Llyngyr / clwy'r traed(5%)
4. BVD (6%)
5. Niwmonia (6%)

Yn 2018 a 2019 cofnodwyd set debyg iawn o bryderon. Mae cloffni, clwy'r traed, clafr defaid, BVD a niwmonia oll yn bryderon allweddol i ffermwyr yn y ddau arolwg. Y gwahaniaeth mawr a welwyd rhwng 2018 a 2019 yw pryder ynghylch parasitiaid (gan gynnwys ymwrthedd i driniaethau llyngyr, ac eithrio llyngyr yr iau) ac yn fwy penodol llyngyr (yr iau a'r rwmen). Yn 2018, y broblem iechyd fwyaf cyffredin oedd parasitiaid gyda 15% o'r ymatebwyr yn nodi ei fod yn bryder. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n cael ei adlewyrchu yn arolwg 2019 lle mai dim ond 2% a nododd parasitiaid yn bryder. Ceir pwyslais ar llyngyr yn benodol yn 2019 (5%). Mae llyngyr yr iau yn glefyd sy'n bwysig yn economaidd, gan achosi colledion sylweddol o ran cynhyrchiant mewn defaid a gwartheg. Gyda mwy a mwy o ymwrthedd i driniaethau llyngyr a newid yn yr hinsawdd yn arwain at dywydd gwlypach a mwynach, mae rheoli llyngyr yn dod yn bwysicach fyth (Gordon *et al.*, 2012). Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig gwybodaeth am reoli llyngyr yr iau (nifer o erthyglau, taflenni ffeithiau a chyhoeddiadau technegol) ac maent wedi cynnal prosiectau sy'n ceisio cynyddu ymwybyddiaeth ffermwyr. Gallai tynnu sylw at yr adnoddau hyn ar adegau allweddol o'r flwyddyn (mae heintiau aciwt yn dueddol o ddod i'r amlwg Awst - Hydref, is-aciwt o fis Hydref ymlaen ac achosion cronig o fis Rhagfyr ymlaen) helpu i gynyddu ymgysylltiad â'r adnoddau perthnasol (<sup>1</sup>NADIS, 2019).

Roedd cloffni cyffredinol hefyd yn bryder sylweddol (11% yn 2018 a 12% yn 2019). Roedd ymatebion (9% a 5% yn y drefn honno) yn nodi bod clwy'r traed mewn defaid yn broblem, a gallai hynny ddod o dan gategori cloffni. Mae cloffni yn faes eang, gan fod yr hyn sy'n achosi'r cloffni'n gallu amrywio'n sylweddol - er enghraifft, bydd triniaeth ar gyfer clwy'r traed yn wahanol iawn i'r driniaeth ofynnol ar gyfer laminitis neu dorri asgwrn. Serch hynny, mae cloffni yn fater economaidd arwyddocaol i ffermwyr. Credir ei fod yn costio oddeutu £28 miliwn y flwyddyn yn y DU i'r diwydiant defaid (<sup>2</sup>NADIS, 2019).

Mae clafr defaid hefyd yn peri pryder i'r rhai a arolygwyd, gydag 8% yn 2018 a 9% yn 2019 yn nodi ei fod yn broblem ar eu fferm. Mae clafr defaid yn cael ei achosi gan y gwiddon *Psorptes ovis* ac yn arwain at glwyfau a llid difrifol ar y croen (van den Broek & Huntley, 2003). Mae hyn yn arwain at golli cnu, dirywiad yng nghyflwr y corff, pwysau geni is, cyfraddau marwolaeth uwch ymysg yr ŵyn a mwy o garcasau'n cael eu condemnio yn y lladd-dy (<sup>1</sup>NADIS, 2019). Oherwydd bod y clefyd yn cael ei drosglwyddo trwy factor symudol a all oroesi hyd at 17 diwrnod yn yr amgylchedd, mae'n heintus iawn. O'r herwydd, os nad yw ffermydd yn trin defaid heintiedig, mae'n anochel y bydd y cyflwr yn heintio ffermydd cyfagos. Yn y DU mae yna ofyniad cyfreithiol i drin clafr defaid, ond nododd astudiaeth yn 2010 fod 36% o ffermydd defaid Cymru wedi profi achos yn ystod y 5 mlynedd diwethaf (<sup>1</sup>NADIS, 2019). Ar ddechrau 2019, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer Prosiect Gwaredu Clafr Defaid - ymrwymiad calonogol a gafodd dderbyniad da gan y rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant amaethyddol.

13. Ar raddfa o 1-6, pa mor bwysig yw rheoli'r canlynol i'ch busnes: (1 yn golygu ddim yn bwysig, 6 yn golygu pwysig iawn):

a) Bioamrywiaeth a chynefinoedd

Gwerth	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
1	5	9	0	1
2	4	21	0	3
3	24	59	3	8
4	80	150	9	21
5	389	280	43	40
6	396	177	43	25
Cyfanswm yr ymatebion	898	696	99	99
Cyfanswm heb ymateb	13	9	1	1

Mae ymatebion rhwng 2018 a 2019 yn dangos rhai amrywiadau, gydag 86% o ymatebwyr yn dewis 5 neu 6 ar y raddfa yn 2018, o'i gymharu â 65% yn 2019. Gallai hyn awgrymu bod bioamrywiaeth a chynefinoedd wedi dod yn llai o bryder rhwng 2018 a 2019, ond bod y pwnc yn parhau i fod yn dipyn o flaenoriaeth i ffermwyr Cymru.

b) Pridd

Gwerth	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
1	28	1	3	0
2	40	1	4	0
3	190	11	20	1
4	239	36	26	5
5	258	140	28	20
6	147	503	16	71
Cyfanswm yr ymatebion	905	692	99	98
Cyfanswm heb ymateb	6	13	1	2

Pan ofynnwyd pa mor bwysig yw rheoli pridd i'w busnes fferm, dangosodd cyfranogwyr ymateb gwahanol yn 2018 o'i gymharu â 2019. Mae canlyniadau arolwg 2018 yn awgrymu bod pridd yn peri rhywfaint o bryder, gan fod tua hanner yr ymatebion (54%) yn ei raddio ar 4 neu 5 ar y raddfa. Fodd bynnag, yn 2019, nododd 71% o'r atebion fod pridd yn brif flaenoriaeth, gan raddio'r mater hwn yn 6 ar y raddfa. Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu y bu gwelliant neu gynnydd yn nealltwriaeth ffermwyr o'r angen i fonitro a chynnal y pridd er mwyn sicrhau'r cynhyrchiant a'r elw gorau posibl rhwng 2018 a 2019, ac mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i weithgareddau Cyswllt Ffermio, yn enwedig samplu pridd a gweithdai.

c) Ansawdd dŵr

Gwerth	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
1	2	3	0	0
2	5	2	0	0
3	27	23	3	3
4	65	73	7	10
5	305	291	33	41
6	496	298	54	42
Cyfanswm yr ymatebion	900	690	99	98
Cyfanswm heb ymateb	11	15	1	2

Roedd yr ymateb i ansawdd dŵr yn debyg yn 2018 a 2019, gan fod 87% o ymatebion yn 2018 yn nodi 5 neu 6 ar y raddfa ac 83% yn 2019. Byddai hyn yn awgrymu bod ansawdd dŵr o bwysigrwydd cyson i ffermwyr yng Nghymru.

#### d) Tirwedd

Gwerth	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
1	2	4	0	0
2	18	13	2	2
3	50	51	5	7
4	185	176	20	25
5	462	335	51	48
6	176	108	19	15
Cyfanswm yr ymatebion	893	687	98	97
Cyfanswm heb ymateb	18	18	2	3

Roedd pwysigrwydd rheoli tirweddau i gyfranogwyr yn arolwg 2018 a 2019 yn debyg iawn. Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod cyfranogwyr yn gymharol bryderus ynglŷn â chynnal y dirwedd, er nad yw mor bwysig ag ansawdd pridd neu ddŵr. Mae ymateb o'r fath yn galonogol, gan fod tirwedd eiconig Cymru yn cael ei chydabod fel nwydd cyhoeddus, gyda'r mwyafrif helaeth yn cael ei reoli a'i gynnal gan ffermwyr (Llywodraeth Cymru, 2017).

#### e) Dŵr

Gwerth	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
1	29	4	3	0
2	22	3	2	0
3	36	23	4	3
4	123	76	13	11
5	493	302	54	43
6	188	281	21	40
Cyfanswm yr ymatebion	891	689	98	98
Cyfanswm heb ymateb	20	16	2	2

Roedd pwysigrwydd rheoli dŵr i gyfranogwyr yn 2018 a 2019 yn weddol debyg, er bod arwyddion o fwy o bryder yn 2019. Roedd arolwg 2018 yn dangos bod 21% o gyfranogwyr yn nodi bod dŵr ar lefel 6 ar y raddfa bwysigrwydd o'i gymharu â 40% yn 2019.

#### f) Ansawdd aer

Gwerth	Nifer yr ymatebion		% ymatebion	
	2018	2019	2018	2019
1	7	5	1	0
2	14	11	1.5	1
3	46	41	5	6
4	168	109	18	15
5	501	333	55	48
6	162	188	18	27
Cyfanswm yr ymatebion	898	687	98	97
Cyfanswm heb ymateb	13	18	2	3

Unwaith eto, roedd pwysigrwydd rheoli ansawdd aer yn gymharol rhwng 2018 a 2019. Yn y ddau arolwg, roedd mwyafrif yr ymatebion ar ochr uchaf canol y raddfa, gyda'r rhan fwyaf yn dewis '5' (55% yn 2018 a 47% yn 2019).

